**Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth 30 Ebrill 2024**

# Adolygiad Annibynnol o Gynllunio Integredig Cynllun Gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn Adolygiad Annibynnol y Mesurau Arbennig o Gynllunio Integredig, a dderbyniwyd yn ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2024.

## ▪ Cefndir

Ni allodd y Bwrdd Iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy (IMTP) ar gyfer 2023-2026. Cadarnhaodd y fframwaith mesurau arbennig ar gyfer 2023/24 drefniadau ar gyfer asesiad annibynnol o drefniadau cynllunio integredig y Bwrdd Iechyd. Dyma nodau ac amcanion yr asesiad:

**Nodau:**

1) Asesu capasiti a gallu cynllunio integredig yn BIPBC o ran cynllunio strategol, cynllunio partneriaethau a chynlluniau gweithredol.
2) Asesu dull y sefydliad o ddatblygu ei IMTP a'r mecanweithiau gwneud penderfyniadau cysylltiedig.
3) Cefnogi datblygu a gweithredu fframwaith cynllunio integredig lleol sy'n ymgorffori strategaeth a chynllunio (yn fewnol ar draws y sefydliad ac yn allanol gyda phartneriaid).

**Amcanion:**

1) Cynnal asesiad cyflym o gynllunio integredig.
2) Asesu capasiti a gallu o ran cynllunio strategol, tactegol a gweithredol yn BIPBC.
3) Sefydlu pa fecanweithiau oedd yn eu lle i gefnogi cynllunio gweithredol ar lefel y Cymunedau Iechyd Integredig (IHC).
4) Sefydlu sut mae swyddogaethau corfforaethol, partneriaid a Chymunedau Iechyd Integredig yn bwydo i'r broses gynllunio.
5) Cadarnhau sut y cafodd yr holl swyddogaethau amrywiol eu hystyried a'u hasesu yn y fframwaith cynllunio.
6) Cadarnhau a yw trefniadau llywodraethu strategol presennol (o'r Ward i'r Bwrdd) yn cefnogi cynllunio integredig.

Ymgymerwyd â gwaith maes gan gynghorydd annibynnol ym mis Awst a mis Medi 2023, a rhyddhawyd yr adroddiad drafft i BIPBC gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2024. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2024.

## ▪ Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol a Chynllun Gweithredu 2024/25

Nododd yr asesiad annibynnol gryfderau a chyfleoedd i'r sefydliad wella a chryfhau ei swyddogaeth gynllunio. Mae'r cyfleoedd hyn wedi'u hystyried a'u cynnwys yn y cynllun gweithredu arfaethedig. Mae'r cynllun gweithredu felly wedi'i strwythuro i gefnogi **tri maes argymhelliad allweddol** a nodwyd yn yr asesiad, gyda chamau gweithredu manwl wedi'u gosod yn erbyn amserlenni ar gyfer eu cyflawni yn ystod 2024 – 2025. Ystyriwyd cysylltiadau â chynlluniau gweithredu thematig adolygiadau annibynnol eraill o fesurau arbennig hefyd, gan sicrhau triongli effeithiol o flaenoriaethau a lleihau dyblygu gwaith. Rhannwyd yr argymhellion a ddarparwyd yn yr adroddiad asesu terfynol o dan dri maes allweddol fel a ganlyn:

| 1 | **Dylunio System Gynllunio effeithiol** |
|---|---|
| | • Gwella argaeledd data at ddibenion cynllunio.<br>• Cytuno ar ddull sefydliadol o fodelu galw a chapasiti.<br>• Hyrwyddo dulliau amlddisgyblaethol at gynllunio.<br>• Datblygu proses i asesu dichonoldeb cynlluniau i gyflawni'r canlyniadau gofynnol.<br>• Integreiddio BAF â monitro'r Cynllun Blynyddol.<br>• Alinio'r system gynllunio â chyflawni'r portffolio newid llawn.<br>• Gwella ffocws ar effeithlonrwydd Cyllid ac Achosion Busnes.<br>• Datblygu rhaglenni gwaith trwy'r swyddfa PMO. |

| 2 | **Datblygu map llwybr sefydliad** |
|---|---|
| | • Adolygu trefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer rhaglenni cynllunio.<br>• Cyflwyno Cynllun ar gyfer 2024/2027 a ategir gan Gynllun Blynyddol.<br>• Cloriannu ymrwymiadau strategol. |

| 3 | **Deall capasiti a gallu** |
|---|---|
| | • Datblygu arweinyddiaeth gyfunol a pherchnogi  cynlluniau.<br>• Cynnal adolygiad o gapasiti, sgiliau ac arbenigedd o fewn y swyddogaeth cynllunio strategol. |

Mae llawer o elfennau'r cynllun gweithredu arfaethedig eisoes ar y gweill, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi ail-ddylunio'r broses gynllunio, mynediad at addysg lefel diploma i gynorthwyo a datblygu galluoedd cynllunio, ac adolygiad cychwynnol o gapasiti a galluoedd cynllunio corfforaethol. Bydd nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen hefyd yn cael eu sefydlu i oruchwylio meysydd gwaith penodol, ac adroddir ar gynnydd yn unol â gofynion y fframwaith mesurau arbennig y cytunwyd arnynt.

## Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor **GYMERADWYO** cynllun gweithredu ac ymateb y rheolwyr ar gyfer 2024/25.

## CYNLLUN GWEITHREDU: Adolygiad Annibynnol o Gynllunio yn PBC

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cynllun gweithredu ac ymateb y rheolwyr sy'n ymwneud ag Adolygiad Annibynnol y Mesurau Arbennig o Gynllunio. Fe'i datblygwyd yn dilyn derbyn yr adroddiad terfynol gan Lywodraeth Cymru a thrafodaeth yn sesiwn ddatblygu'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) ym mis Mawrth 2024, lle'r oedd awdur yr adroddiad yn bresennol i gyflwyno'r canfyddiadau.

Sylwer: mae'r cynllun gweithredu wedi'i strwythuro o amgylch y prif themâu sydd eisoes wedi dod i'r amlwg o adolygiadau annibynnol cynharach y Mesurau Arbennig.

Nid oes angen unrhyw benawdau themâu ychwanegol o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol hwn.
1
**Diffiniadau o statws RAG**:
**Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir;
**Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir;
**Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir
**Porffor**: Cyflawnwyd

**Thema: Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad**
Perchennog y thema: Trawsnewid a Chynllunio Strategol;
Cadeirydd Grŵp Cyflawni'r Tîm Gweithredol: Chris Stockport

| Cyf | Argymhellion Gwreiddiol | Cam gweithredu | Arweinydd o'r Tîm Gweithredol | Statws RAG[1] | Terfyn amser | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Cynnal adolygiad o hygyrchedd data at ddibenion cynllunio a datrys problemau**.<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 61 a 79).* | 1.1 Sefydlu gweithgor i adolygu trefniadau data presennol ac adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael â hygyrchedd / bylchau.<br><br>1.2 Nodi a chytuno pa wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gweithgarwch cynllunio a datrys problemau.<br><br>1.3 Cytuno ar lwybrau mynediad at ddata a fformat adrodd sy'n dangos cynnydd yn erbyn cynlluniau. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 30 Medi 2024<br><br>30 Medi 2024<br><br>30 Medi 2024 | |
| **2** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Cytuno ar y dull sefydliadol o Fodelu Galw a Chapasiti a'r adnoddau sydd eu hangen**.<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 50 a 84).* | 2.1 Diffinio a safoni prosesau a thybiaethau modelu Galw a Chapasiti BIPBC gan ystyried arfer gorau.<br><br>2.2 Cyflwyno papur i'r Tîm Gweithredol yn amlinellu argymhellion. | Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu. | | 31 Hydref 2024<br><br>31 Rhagfyr 2024 | |

**Thema: Diwylliant**
Perchennog y thema: Grŵp Llywio Datblygu'r Sefydliad;
Cadeirydd: Carol Shillabeer

| Cyf | Argymhellion Gwreiddiol | Cam gweithredu | Arweinydd o'r Tîm Gweithredol | Statws RAG[1] | Terfyn amser | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: 'Mae cynllunio yn fusnes i bawb' – creu'r amodau ar gyfer cynllunio integredig sy'n hyrwyddo dull mwy amlddisgyblaethol.**<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 32, 43 ac 80).* | 3.1 Cynnal Sesiynau Adborth Adolygu Cynllunio Blynyddol ar gyfer Cynllun 2024/2007.<br><br>3.2 Datblygu 'Llawlyfr Cynllunio' sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau yn y sefydliad.<br><br>3.3 Adolygu dogfen Fframwaith Cynllunio Integredig PBC a'i ddiweddaru lle bo angen<br><br>3.4 Cynnal adolygiad o adnoddau cynllunio a chyflwyno adnoddau newydd lle bo angen. (Cysylltu â 1.1) | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 31 Mai 2024<br><br>31 Gorffennaf 2024<br><br>30 Medi 2024<br><br>30 Medi 2024 | |
| **4** | **Capasiti a Gallu: Datblygu arweinyddiaeth a pherchnogaeth gyfunol o gynlluniau**.<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 23 a 62).* | 4.1 Arweinyddiaeth - Cynnal cyfres o sesiynau ar Gynllunio Integredig fel rhan o Raglen Datblygu'r Bwrdd.<br><br>4.2 Perchenogaeth – Sicrhau bod llywodraethu priodol yn cael ei weithredu ar gyfer y trefniadau rhaeadru ac atebolrwydd ar gyfer amcanion y Cynllun Cyflawni Blynyddol. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | Bob chwarter<br><br>30 Medi 2024 | |

**Thema: Rheoli Risg**
Perchennog y thema: Y Grŵp Rheoli Risg;
Cadeirydd: Nick Lyons

| Cyf | Argymhellion Gwreiddiol | Cam gweithredu | Arweinydd o'r Tîm Gweithredol | Statws RAG[1] | Terfyn amser | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Datblygu proses i asesu dichonoldeb cynlluniau i gyflawni'r canlyniad gofynnol**<br><br>*(Argymhelliad para 97).* | 5.1 Gweithredu proses ddiwygiedig ar gyfer datblygu Cynllun Cyflawni Blynyddol PBC gydag amcanion CAMPUS a chyflawniadau clir. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 30 Ebrill 2024 | |
| **6** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Datblygu mecanwaith i integreiddio gofynion Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) ynghylch rheoli risg i brosesau Monitro'r Cynllun Blynyddol**<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 97 a 98).* | 6.1 Sicrhau cysylltiadau effeithiol ag adroddiadau BAF a Rheoli Risg, gan integreiddio amcanion risg ac amcanion y cynllun cyflawni.<br><br>6.2 Cyflwyno argymhellion i'r tîm Gweithredol. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | | 30 Mehefin 2024<br><br>31 Gorffennaf 2024 | |

| **Thema: Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad** Perchennog y Thema: I'w gadarnhau | **Cyf** | **Argymhellion Gwreiddiol** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd o'r Tîm Gweithredol** | **Statws RAG**[1] | **Terfyn amser** | **Diweddariad ar gynnydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **7** | **Datblygu map llwybr sefydliadol: Adolygu'r trefniadau Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Rhaglenni ar draws y sefydliad ac amlinellu'r llwybrau penderfynu ac atebolrwydd**<br><br>*(Argymhelliad paragraffau 47, 51 a 62).* | 7.1 Nodi ac adolygu prosesau atebolrwydd cyfredol Cynllunio Rhaglenni i gynnwys trefniadau llywodraethu, monitro rheoli a chynlluniau adnoddau.<br><br>7.2 Cytuno ar ddull Cynllunio Lefel Rhaglen ddiwygiedig a'i roi ar waith gyda phroses atebolrwydd wedi'i diffinio'n glir. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 31 Awst 2024<br><br>31 Hydref 2024 | |

**Thema: Cynllunio Integredig**
Perchennog y thema: Trawsnewid a Chynllunio Strategol;
Cadeirydd Grŵp Cyflawni' r Tîm Gweithredol: Chris Stockport

| Cyf | Argymhellion Gwreiddiol | Cam gweithredu | Arweinydd o'r Tîm Gweithredol | Statws RAG[1] | Terfyn amser | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **8** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Dylunio a gweithredu System Gynllunio newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd sydd wedi'i halinio i gyflawni'r portffolio newid llawn**<br><br>*(Argymhelliad para 15).* | 8.1 Dylunio a gweithredu system gynllunio fewnol ddiwygiedig sy'n cefnogi cynllunio a chyflawni blaenoriaethau sefydliadol allweddol. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 31 Mawrth 2025 | |
| **9** | **Datblygu map llwybr sefydliadol: Cyflwyno Cynllun ar gyfer 2024-27, yn seiliedig ar 5 amcan strategol ac wedi'i gefnogi gan Gynllun Cyflawni Blynyddol**<br><br>*(Argymhelliad para 152 a 154).* | 9.1 Cyflwyno Cynllun 3 Blynedd yn unol â'r Cylch Cynllunio Cenedlaethol.<br><br>9.2 Triongli cynllunio, gweithlu a chyllid. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 28 Mawrth 2024<br><br>28 Mawrth 2024 | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| **10** | **Datblygu map llwybr sefydliadol: Cynnal ymarfer cloriannu'r holl ymrwymiadau strategol presennol a chytuno ar amcanion strategol ar gyfer y sefydliad**<br><br>*(Argymhelliad para 6, 137 a 155).* | 10.1 Manylion Cyflawni Amcanion Strategol i'w nodi yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Sefydliad.<br><br>10.2 Alinio amcanion strategol i'r Cynllun 10 Mlynedd presennol.<br><br>10.3 Sicrhau aliniad mesurau arbennig ag amcanion Cynllun Cyflawni Blynyddol sefydliadol. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 30 Ebrill 2024<br><br>31 Mawrth 2025<br><br>31 Mai 2024 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema: Cynllunio Integredig**<br>Perchennog y thema: Trawsnewid a Chynllunio Strategol;<br>Cadeirydd Grŵp Cyflawni'r Tîm Gweithredol: Chris Stockport | **11** | **Datblygu System Gynllunio Effeithiol: Datblygu rhaglen waith trwy'r Swyddfa Rheoli Portffolio'r sefydliad (PMO)**<br><br>(*Argymhelliad* paragraffau 61, 141, 44). | 12.1 Datblygu, cytuno a gweithredu dull newydd o ddiffinio a rheoli Portffolio Newid Sefydliadol gan gynnwys:<br><br>• Safonau Rheoli Prosiectau<br>• Rhaglenni newid mawr<br>• Rheoli risgiau mewn Rhaglenni a Phrosiectau.<br>• Sut i gloi, gwerthuso a dysgu oddi wrth Brosiectau a Rhaglenni. | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. | | 31 Awst 2024 | |